## Yr amserlen ar gyfer ystyried y Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)

Ar 22 Medi 2008, cyflwynwyd Mesur arfaethedig llywodraeth, ‘Mesur Llywodraeth Leol (Cymru)’, yn y Cynulliad.

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.21, mae’r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i gyfeirio’r ystyriaeth ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig at bwyllgor.

Ar 1 Hydref 2008, yn unol â Rheol Sefydlog 21.1, penderfynodd y Cynulliad sefydlu Pwyllgor i ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chyflwyno adroddiad. Bydd y Pwyllgor yn dod i ben os bydd y Mesur arfaethedig yn cael ei basio, yn syrthio neu’n cael ei dynnu’n ôl, neu sefydlir pwyllgor newydd i ystyried trafodion Cyfnod 2 o dan Reol Sefydlog 23.31(ii).

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.19, mae’r Pwyllgor Busnes wedi sefydlu amserlen fel y gall y Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac y mae wedi cytuno y dylai’r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i’r Cynulliad erbyn 23 Ionawr 2009.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**
**Medi 2008**